Eisteddfod Llanfihangel-ar-arth a'r Plwyf

Cynhaliwyd Eisteddfod Llanfihangel-ar-arth a'r Plwyf yn Neuadd Yr Ysgol, Llanfihangel-ar-arth ddydd Sadwrn 4 Mawrth 2023. Roedd yn hyfryd bod yn ôl yn y Neuadd ar ôl y cyfnodau clo dros y dair blynedd diwethaf. Y Beirniad Cerdd oedd Rhiannon Lewis, Cwmann a'r beirniad Llefaru oedd Elin Williams hefyd o Gwmann. Cawsom ddiwrnod cystadlu o'r safon uchaf trwy'r dydd a nos gyda'r beirniaid yn rhoi canmoliaeth uchel i'r cystadleuwyr ym mhob adran. Dyma Elin a Rhiannon yn barod i feirniadu'r adran leol.

Llywyddion y Dydd oedd Dafydd a Pauline Jones, Rhiw-lwyd, Dolgran (llun uchod) a hoffai'r Pwyllgor ddiolch yn fawr iddynt am fod mor hael yn eu cefnogaeth i'r Eisteddfod dros y blynyddoedd. Mae Pauline yn gyn aelod gweithgar o'r pwyllgor. Cawson nhw eu cyflwyno i'r gynulleidfa gan Gwyneth Alban a chyflwynwyd plât a blodau i'r ddau oddi wrth y pwyllgor. Yn y llun isod mae Gwyneth Alban, Dafydd a Pauline Jones a Dawn Rees.

Enillydd Cwpan Coffa Freddy Brooker am ganu emyn oedran cynradd yn yr Adran Gyfyngedig oedd Gruffydd Rhys Davies, Llandyfrïog. Gruffydd oedd y perfformiwr mwyaf addawol yr Adran Gyfyngedig gan goroni bore llwyddiannus iawn iddo. Yn y llun ar y chwith mae Calfin Griffiths, Cadeirydd Pwyllgor yr Eisteddfod yn cyflwyno'r Cwpan Her er cof am y diweddar Mr a Mrs Hughes, gynt o Brownhill, Llanfihangel-arth i Gruffydd. Gweler llun o Gruffydd gyda Chwpan Coffa Freddy Brooker ar y dde.

Parti Disgyblion Bro Teifi (isod) enillodd Tarian Valerie Davies yn y gystadleuaeth Parti Canu cynradd lleol. Cyflwynwyd Cwpan am y cais celf gorau gan rywun o oedran ysgol gynradd gan Karen Jones o Landysul, beirniad yr Adran Celf a Llawysgrifen.

Y perfformiwr mwyaf addawol yr Adran Agored oedd Alwena Mair Owen, Llanllwni. Roedd y beirniaid Cerdd a Llefaru llawn canmoliaeth am ei pherfformiadau yn yr adrannau llefaru, canu ac offerynnol ac roedd wedi swyno'r gynulleidfa yn ystod y prynhawn a'r hwyr. Cyflwynwyd Cwpan Western Power iddi gan Calfin Griffiths ar ddiwedd yr Eisteddfod.

Enillodd Alwena gwpan Maesybwlch am ei pherfformiad meistrolgar yn yr Unawd Offerynnol Uwchradd a oedd yn gystadleuaeth o safon uchel iawn yn ôl y beirniad. Alwena gipiodd cwpan her y gystadleuaeth Darllen o'r Ysgrythur ar y pryd hefyd a gweler llun ohoni gyda'r cwpan isod. Roedd yn hyfryd gweld Sioned Howells, New Inn, yn cystadlu unwaith eto eleni ar y llwyfan gan ganu ac adrodd. Cipiodd Sioned y cwpanau her yn yr adrannau canu a lefaru 19-25 oed a 1af yn y deuawd gyda'i chwaer Siriol. Enillwyr Cystadleuaeth Parti Canu/Côr i hyd at 20 o leisiau oedd Merched CFfI Llanllwni a chyflwynwyd Cwpan er Cof am Ifor Rees.

Coronwyd Mrs Carys Briddon o Aberystwyth yn y Seremoni Cadeirio am ei Thelyneg mewn mydr ac odl ar y thema 'Dychwelyd'. Dyma'r ail dro iddi ennill cadair Eisteddfod Llanfihangel-ar-arth a'r Plwyf ar ôl ennill y gadair yn 2020. Aneurin Thomas o Ffostrasol greodd y gadair hyfryd gyda delwedd o Hen Ŵr Pencader wedi'i gerfio'n grefftus arni. Yn anffodus nid oedd Aneurin yn gallu bod yn y seremoni oherwydd salwch a hoffai'r pwyllgor ddymuno gwellhad buan iddo. Yr amryddawn Sioned Howells oedd enillydd Tlws yr Ifanc ac roedd y beirniad Llenyddiaeth Ceri Wyn wrth ei fodd gyda'i stori grefftus a meddylgar. Cyflwynwyd ffrâm llun llechen iddi am ei gwaith buddugol.

Canodd Cathrin Jones gân y Cadeirio yn y seremoni a darllenodd Gruffydd Rhys Davies ac Alwena Mair Owen benillion i Carys a Sioned ar ôl eu tywys i'r llwyfan. Enillydd Tarian Gwenllan am y gwaith gorau gan ddisgybl mewn ysgol oedd Lefi Dafydd o Eglwyswrw, dyma'r trydydd tro i Lefi ennill y wobr hon. Canmolodd Ceri Wyn waith disgyblion yr ysgolion gwahanol yn ei feirniadaeth.

Aeth Gwobr Goffa Gwilym Walters am y darn gorau o Ryddiaith i Trefor Huw Jones o Bontypridd. Enillodd Gerald Coles, ein cyn ysgrifennydd y wobr gyntaf yn y gystadleuaeth Stori Fer ac roedd y gynulleidfa wrth eu boddau pan glywon nhw am ei lwyddiant. Mae Gerald bellach yn byw yn Llantwit Faerdre ond mae'n dal i gefnogi a chystadlu yn yr Eisteddfod bob blwyddyn. Gweler Ceri Wyn, beirniad yr adran Lenyddiaeth yn cyflwyno Cwpan Coffa Gwilym Walters i Trefor Huw Jones.

Gruffydd Thomas o Gaerfyrddin enillodd y Cwpan Her am y paragraff gorau gan ddysgwr am yr ail dro yn olynol. Canmolodd y beirniad ei gais ar y thema 'Ymweliad'. Ar ddiwedd yr Eisteddfod cafwyd perfformiadau safonol gan Linda Davies Evans yn y gystadleuaeth Llefaru dros 25 oed a Robert Jenkins yn y gystadleuaeth Canu dros 25 oed gyda'r gynulleidfa'n fwynhau gwledd o adloniant.

Roedd hon yn eisteddfod a fydd yn aros yn y cof am amser hir iawn ac roedd safon y cystadlu yn uchel o'r dechrau tan y diwedd. Diolch o galon hefyd i'r beirniaid am eu gwaith caled cyn ac ar ddiwrnod yr Eisteddfod. Diolch hefyd i'n cyfeilydd ffyddlon Lynne James sy'n ein cefnogi bob blwyddyn gyda gwên a brwdfrydedd. Diolch o galon i'r arweinyddion, y stiwardiaid a'r rhai a ddarparodd y lluniaeth, y cystadleuwyr, pob un a ddaeth i gefnogi a'r rhai a gyfrannodd yn ariannol, gan gynnwys Cronfa Les Fferm Wynt Statkraft Alltwalis, Cyngor Sir Gaerfyrddin a Chyngor Cymunedau Llanfihangel-ar-arth a Llanllwni. Rydym yn edrych ymlaen at Eisteddfod 2024 yn barod!

Canlyniadau
Llwyfan - Sesiwn cyfyngedig

Unawd Blwyddyn 1 a 2
1. Sioned Howells, Pentre-cwrt
2. Non Thomas, Talgarreg
3. Alys Powell, Llanllwni ac Osian Jones, Rhydowen

Llefaru Blwyddyn 1 a 2
1. Non Thomas, Talgarreg
2. Alys Powell, Llanllwni
3. Gwydion Thomas

Unawd Meithrin a Derbyn
1. Ifan Morris, Llandysul
2. Iolo James, Llandysul

Llefaru Meithrin a Derbyn 1. Ifan Morris, Llandysul

Unawd Blwyddyn 3 a 4
1. Gruffydd Rhys Davies, Llandyfrïog
2. Efa Medi James, Llandysul
3.

Llefaru Blwyddyn 3 a 4
1. Efa Medi James, Llandysul
2. Gruffydd Rhys Davies, Llandyfrïog
3. Rhun Thomas, Talgarreg
4. Anest Lloyd

Unawd Blwyddyn 5 a 6
1. Erin Owen, Ffostrasol
2. Elliw Jones, Llanllwni

Llefaru Blwyddyn 5 a 6
1. Celyn Davies, Llandyfrïog
2. Esyllt Thomas
3. Elliw Jones, Llanllwni

Canu Emyn a Chwpan er cof am Freddy Brooker

1. Gruffydd Rhys Davies, Llandyfriog
2. Efa Medi James, Llandysul

Parti Canu – Ysgol Cynradd

1. Parti Ysgol Bro Teifi
2. Parti Triongl

<u>Enillydd Cwpan Her er cof am Mr a Mrs Hughes gynt o Brownhill:</u> Gruffudd Rhys Davies, Llandyfrïog

<u>Llwyfan Sesiwn Agored</u>

Unawd Meithrin a Derbyn

1. Ifan Morris, Llandysul
2. Greta Wyn
3. Greta Jenkins, Llandysul

Llefaru Meithrin a Derbyn

1. Greta Wyn
2. Greta Jenkins, Llandysul

Unawd Blwyddyn 3 a 4

1. Gruffydd Rhys Davies, Llandyfrïog

Llefaru Blwyddyn 3 a 4

1. Gruffydd Rhys Davies, Llandyfrïog
2. Elliw Grug Davies

Llefaru Blwyddyn 5 a 6

1. Celyn Davies, Llandyfrïog

Unawd Offerynnol – Ysgol Gynradd a Gwobr Valerie Davies (£20)

1. Elliw Jones, Llanllwni
2. Celyn Davies, Llandyfrïog
3. Gruffydd Rhys Davies, Llandyfrïog

Alaw Werin – Ysgol Gynradd

1. Ellis Jones, Llanllwni

Cerdd Dant – Ysgol Gynradd **1.** Ifan Morris, Llandysul a Gruffydd Rhys Davies, Llandyfrïog

Llefaru Blwyddyn 7 – 9

1. Gwennan Owen, Llanllwni
2. Beca Curry

Unawd Blwyddyn 7 – 9

1. Fflur McConnell
2. Gwennan Owen, Llanllwni

Darllen o'r Ysgrythur – Agored

1. Alwena Owen, Llanllwni
2. Maria Evans, Peniel
3. Sioned Howells, New Inn

Canu Emyn – Agored a Chwpan er cof am Noel

1. Gwenan Owen, Llanllwni
2. Sioned Howells, New Inn, Alwena Owen, Llanllwni
3. Siriol Howells, New Inn

Her Adrodd 1. Linda Davies Evans, Dolgran

Her Unawd 1. Robert Jenkins, Llanfihangel-ar-arth

Enillydd Cwpan Western Power am y perfformiad mwyaf addawol yn yr Adran Agored: **Alwena Mair Owen, Llanllwni**

Adran Lenyddiaeth

Y Gadair Carys Briddon, Aberystwyth

Tlws yr Ifanc: Sioned Howells, New Inn

Cân Ysgafn: John Meurig Edwards, Aberhonddu

Cerdd Rydd: John Meurig Edwards, Aberhonddu

Englyn: Alan Lwi, Didcot

Limerig: Alan Lwi, Didcot

Erthygl yn addas i Bapur Bro: Trefor Huw Jones, Pontypridd

Stori Fer: Gerald Coles, Llantwit Faerdre

Cwpan Coffa Gwilym Walters am y darn gorau o ryddiaith yn Adran yr Oedolion: **Trefor Huw Jones, Pontypridd**

Dysgwyr: Gruffydd Thomas, Caerfyrddin

Brawddeg: Megan Richards, Aberaeron

Meithrin a Derbyn – Llun a Brawddeg

1. Greta Wyn, Caerfyrddin
2. Gwydion Davies, Llanfihangel-ar-arth

Stori Blwyddyn 1 a 2: 1. Non Thomas, Talgarreg

Blwyddyn 3 & 4 – Stori:

1. Elliw Grug Davies, Llanybydder

Blwyddyn 5-6 – Stori:

1. Holly Thomas, Ysgol Cae'r Felin
2. Ina Williams, Ysgol Cae'r Felin
3. Lola Griffiths, Ysgol Cae'r Felin

Blwyddyn 7-9 Stori:

1. Fflur McConnell, Aberaeron
2. Trystan Williams Ysgol Bro Pedr
3. Fflur Morgan, Ysgol Bro Pedr

Blwyddyn 10 – 13 – Stori:

1. Lefi Dafydd, Eglwyswrw
2. Betrys Dafydd, Ysgol Bro Teifi
3. Erin Davies, Pentregagal

Enillydd Tarian Gwenllan am y darn gorau o waith yn Adran Lenyddiaeth y Plant: Lefi Dafydd, Eglwyswrw

Llawysgrifen / Handwriting

Lan i Flwyddyn 2:

1. Harri O Ysgol Bro Teifi
2. Non Thomas, Talgarreg
3. Isla Griffiths, Cae'r Felin

Blwyddyn 3 & 4:

1. Rhun Thomas, Talgarreg
2. Maisy Griffiths, Ysgol Talgarreg
3. Heti, Ysgol Bro Teifi

Blwyddyn 5 & 6:

1. Scarlett, Ysgol Bro Teifi
2. Nico Lian, Ysgol Bro Teifi
3. Titw Thomas (ffugenw), Ysgol Bro Teifi

Blwyddyn 7 – 9:

1. Fflur Evans, Ysgol Bro Teifi
2. Cari Jones, Ysgol Bro Teifi
3. Dafydd Owen, Ysgol Bro Teifi

Celf / Art

Meithrin a Derbyn

1. Harri Lloyd, Ysgol Cae'r Felin
2. Maycie Watton, Ysgol Cae'r Felin
3. Dyfan Walters, Ysgol Bro Teifi

Blwyddyn 1 & 2

1. Siôn Thomas, Ysgol Cae'r Felin
2. Isla Griffiths, Ysgol Cae'r Felin
3. Nansi Williams, Ysgol Cae'r Felin

Blwyddyn 3 & 4

1. Elsi Williams, Ysgol Cae'r Felin
2. Izzie Vella, Ysgol Llanllwni
3. Beca Fflur Lloyd Davies, Llanllwni

Blwyddyn 5 & 6

1. Lexi Helen Faye Venables, Ysgol Cae'r Felin
2. Einir George, Llanllwni
3. Lleucu Horwood, Ysgol Cae'r Felin

Cwpan Her er cof am Heledd Griffiths / Winner of The Heledd Griffiths Memorial Cup

Lexi Helen Faye Venables, Ysgol Cae'r Felin

Celf – Agored / Art Open

1. Magw Thomas, Llandysul